Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Eglwys Newydd

**Neuadd y Sgowtiaid**
**Heol Penllyn**
**Yr Eglwys Newydd**
**CF14 2AD**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Eglwys Newydd

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Eglwys Newydd |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol. Wedi newid i ofal dydd llawn yn ystod yr arolygiad |
| Person(au) cofrestredig | Nia Macqueen |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Clare Loveluck |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2-5 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 20 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Iau: 09:30 tan 15:15<br>Dydd Gwener: 09:30 tan 13:00 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg ac yn gwneud pob ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 07/03/2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Ionawr 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 05/12/2023 |
| Mae ychydig o blant yn siarad Cymraeg yn y cartref. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Rhagorol** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Rhagorol** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yrarolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn ymyrryd yn amserol i herio bob plentyn yn briodol

A2 Cryfhau prosesau trefniadol i sicrhau bod dogfennaeth ddiweddar yn ei lle

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

Bydd AGC ac Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ar eu gwaith mewn perthynas ag Awdurdod Lleol Caerdydd, i’w lledaenu ar eu gwefannau.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Rhagorol**

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus, yn frwdfrydig a hyderus. Mae’r plant yn ganolbwynt i’r lleoliad ac mae ganddynt lais cryf iawn ar draws pob agwedd o’u profiadau. Maent yn cyfrannu’n effeithiol iawn i’r broses gynllunio drwy ychwanegu at y bwrdd syniadau, er enghraifft trwy awgrymu y dylid gwahodd teigr i ddod am de amser Nadolig, yn dilyn rhannu stori am deigr a ddaeth i de. Cynhelir sesiynau dyddiol gyda grwpiau bach o blant er mwyn iddynt gael mwy o gyfleoedd i drafod a datblygu eu geirfa, fel trafod y tywydd a’u teimladau. O ganlyniad, mae bron bob un yn gwybod bod ganddynt lais ac y caiff eu dymuniadau eu parchu.

Mae bron bob plentyn yn ymdopi’n arbennig pan maent yn gwahanu oddi wrth eu rhieni a gofalwyr. Maent yn cael cyfleoedd effeithiol iawn i fynegi eu teimladau yn gyson. Er enghraifft, mae’r plant yn gwneud defnydd o wal deimladau a chymeriad sy’n eu cefnogi i ymateb i’w pryderon. Mae’r plant yn ymwybodol o’u hawliau ac yn rhan allweddol o’r broses i greu rheolau sy’n eu cadw’n ddiogel. Mae caredigrwydd yn cael ei ddathlu’n gyson wrth i’r plant a’r ymarferwyr adnabod rhinweddau yn ei gilydd; dethlir hyn gan benodi arwyr caredigrwydd. Mae pob darn o waith celf y plant yn unigryw ac maent yn cael eu harddangos yn gelfydd. Mae’r plant yn dangos cryn falchder wrth bwyntio at eu haddurn Nadolig unigryw ar y goeden. O ganlyniad mae’r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn hapus a diogel.

Mae bron bob plentyn yn rhyngweithio’n eithriadol o dda â’i gilydd ac yn cydweithio’n arbennig. Er enghraifft, wrth chwarae gyda cherbydau bach, mae grŵp o blant yn trefnu eu hunain er mwyn cydweithio’n hynod lwyddiannus i symud y pridd i ddatrys problem. Maent yn canolbwyntio am amser cynyddol ac yn llongyfarch ei gilydd yn naturiol. Mae’r plant yn datblygu medrau cymdeithasu buddiol. Enghraifft nodweddiadol o hyn yw yn ystod y sesiwn teulu a chymuned pan ddaeth ceirw i ymweld â’r lleoliad. Croesawodd y plant nhw gan sgwrsio’n anffurfiol gyda’r ymwelwyr ac ymuno’n hyderus gyda sesiwn dawnsio a chanu Nadoligaidd wrth i’w rhieni wylio.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn ac yn cymell eu hunain yn y gweithgareddau o’u dewis. Yn y gegin chwarae rôl, maent wrth eu bodd yn coginio te mintys gan dorri a rhwygo mintys i mewn i’r te. Maent yn sgwrsio a chwerthin yn naturiol yn eu gweithgareddau chwarae rôl wrth siarad dros baned o de.

Mae bron bob plentyn yn datblygu medrau annibynnol effeithiol iawn. Maent yn symud yn hyderus o un ardal i’r llall, gan gynnwys yr ardal allanol. Mae’r plant yn cymryd cyfrifoldeb arbennig am eu hylendid personol gan olchi dwylo’n aml yn yr orsaf olchi sydd ar gael iddynt yn yr ardaloedd chwarae. Maent yn hyderus yn datblygu medrau newydd. Er enghraifft, o dan oruchwyliaeth, maent yn cael cyfleoedd i ddefnyddio offer go iawn megis hoelion a morthwyl ac i ddringo a chlymu rhaff er mwyn creu lloches yn y goedwig.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn sicrhau bod adnoddau cymorth cyntaf priodol ar gael yn y lleoliad ac ar gyfer ymweliadau. Mae gan yr ymarferwyr dystysgrif cymorth cyntaf briodol er mwyn sicrhau eu bod yn gymwys i ddelio â damweiniau. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbl ymwybodol o’u cyfrifoldebau. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion o ddamweiniau sydd yn cynnwys llofnodion ymarferwyr a rhieni. Maent hefyd yn cadw cofnodion o ddigwyddiadau a phryderon ac wrthi’n diweddaru'r system gofnodi i sicrhau bod cofnodion unigol ar gael. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Maent yn hyrwyddo byw’n iach trwy ddarparu byrbryd iachus ac yn cynnal sesiynau ioga yn gyson iawn gyda’r plant.

Mae ymarferwyr yn dilyn y polisi ymddygiad ac yn gosod esiampl dda o ymddygiad cadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn aml, sy’n effeithio'n gadarnhaol ar ddatblygu eu hunanhyder a’u dealltwriaeth o barchu ei gilydd. Mae bob ymarferydd yn defnyddio iaith gadarnhaol gyda'r plant, sydd hefyd yn hyrwyddo ymddygiad da ac yn cefnogi'r plant i reoli eu dewisiadau yn effeithiol.

Mae ymarferwyr yn defnyddio asesiadau personol a chymdeithasol ac yn casglu gwybodaeth er mwyn dod i adnabod y plant. Mae'r asesiadau hyn yn cefnogi'r ymarferwyr i ddeall pam mae plant yn ymateb yn wahanol a sut gallant gefnogi anghenion unigol bob plentyn. Mae ymarferwyr yn cydweithio â rhieni ac asiantaethau er mwyn cefnogi unrhyw blentyn sy'n fregus neu sydd ag anghenion ychwanegol.

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn adnabod y plant yn arbennig o dda ac yn parchu eu dymuniadau a'u hoffterau. Mae llawer o'r ymarferwyr yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson i drochi ac atgyfnerthu patrymau iaith gyda'r plant ac mae'r mwyafrif yn cyflwyno geirfa newydd iddynt. Mae ymarferwyr yn hyrwyddo dealltwriaeth y plant o bwysigrwydd trin pobl o bob cefndir â pharch a goddefgarwch yn effeithiol. Maent yn sensitif i blant sy'n dewis peidio ag ymgymryd â thasgau penodol trwy adael iddynt ddewis eu trywydd eu hunain. Er enghraifft, yn ystod sesiwn ganu, nid yw ymarferwyr yn gorfodi'r plant i eistedd ac i ymuno; yn hytrach, mae plant yn dod i ymuno yn eu hamser eu hunain. Mae'r ymarferwyr yn cynllunio'n  weithredol ac effeithiol er mwyn dilyn diddordebau'r plant. Er enghraifft, maent yn ymateb i geisiadau rhai o'r plant i greu lein ddillad ac i hongian dillad Siôn Corn.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu gweithgareddau'n effeithiol i ddiwallu eu hanghenion unigol. Enghraifft dda o hyn yw sut mae'r ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd i'r plant rannu eu syniadau ar yr hysbysfwrdd 'Dyna syniad da'. Maent yn gosod y plant mewn grwpiau bach pan maent yn cyrraedd y lleoliad, sy'n gyfle buddiol i drafod sut maent yn teimlo a beth hoffen nhw ei wneud yn ystod y sesiwn. O ganlyniad, mae'r plant yn cael gwneud dewisiadau personol ynglŷn â'u dysgu a'u chwarae. Mae hyn hefyd yn gyfle gwerthchweil i'r plant gymryd tro a dangos empathi tuag at eu cyfoedion. Er hyn, nid yw ymarferwyr bod tro'n cadw sesiynau torfol yn ddigon byr, er mwyn cynnal diddordeb y plant yn eu gwaith.

Mae'r ymarferwyr yn ymateb i brofiadau byw'r  plant drwy gynllunio profiadau dysgu difyr sy'n hybu chwilfrydedd. Er enghraifft, yn dilyn ymweliad gan blentyn i weld darlun enwog y lilis dŵr yn Ffrainc, mae'r ymarferwyr wedi creu pwll yn yr ardal allanol yn ogystal â chynllunio cyfleoedd i blant wneud lluniau ac ymweld ag Amgueddfa Caerdydd i fwynhau darluniau gan artistiaid eraill. Mae'r ymarferwyr yn cynnig profiadau buddiol i'r plant ddysgu o ble y daw eu bwyd. Er enghraifft, maent yn dysgu sut i ofalu am ieir ac yn defnyddio'r wyau i goginio wyau wedi eu sgramblo. Mae hyn yn cyfrannu'n werthfawr at eu dealltwriaeth o fywyd natur a sut i gadw'n iach.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant ddatblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan. Darperir blwch teleffon lle caiff y plant gyfle pwrpasol i ddatblygu eu medrau cyfathrebu yn ogystal â defnyddio rhifau wrth ffonio cymeriadau adnabyddus fel Jac y Jwc. Mae'r ymarferwyr hefyd yn cynnal sesiwn ioga ddyddiol gyda'r plant sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau corfforol a chyfathrebu, er enghraifft trwy wrando ar gyfarwyddiadau clir gan yr

arweinydd ar sut i symud eu cyrff. Mae ymarferwyr yn cynllunio profiadau dysgu addas i ddatblygu medrau TGCh y plant, gan gynnwys defnyddio tortshis yn eu chwarae.

Mae'r ymarferwyr yn dathlu Cymreictod y plant yn effeithiol iawn. Maent yn ymchwilio i draddodiadau fel llwyau caru ac yn gwneud defnydd o'r ardal leol i gynnig profiadau gwerthfawr i ddysgu am hanes Cymru. Enghraifft dda o hyn yw ymweld ag amgueddfa werin San Ffagan i ddysgu am fywyd hanesyddol yng Nghymru. Mae'r ymarferwyr yn manteisio ar gefndiroedd amrywiol y plant i gynnig ystod dda o brofiadau arbennig sy'n meithrin eu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Er enghraifft, gwnaethant wahodd nain un o'r plant i ymweld â'r lleoliad i goginio nwdls a saws i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Cafodd y plant gyfle gwerthchweil i flasu'r bwyd a chreu cardiau ac addurniadau ar gyfer y dathliad.

Mae ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfredol am ddatblygiad plant ac yn hyrwyddo eu hiaith yn effeithiol iawn. Maent yn darparu amgylchedd ysgogol a heriol, tu mewn a thu allan, sy'n annog ymglymiad, cyfranogiad a mwynhad. Mae'r ymarferwyr yn symud yn briodol o gwmpas yr ardaloedd hyn i arsylwi ar y plant yn eu dysgu a'u chwarae. Yn achlysurol, mae llawer o'r ymarferwyr yn ysgogi diddordeb a chwilfrydedd y plant wrth gyd-chwarae rôl gyda nhw. Fodd bynnag, nid yw ymarferwyr bob tro'n manteisio ar gyfleoedd gwerthfawr i ryngweithio a holi'r plant yn effeithiol er mwyn symud y dysgu a'r chwarae yn ei flaen.

Mae'r ymarferwyr yn asesu anghenion y plant yn bwrpasol pan maent yn cychwyn yn y lleoliad. Maent yn arsylwi arnynt yn rheolaidd er mwyn adnabod eu cryfderau, eu meysydd i'w gwella a'u cynnydd yn effeithiol. Mae'r arweinydd a'r ymarferwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn bwrpasol i gynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu a'u datblygiad. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar gynnydd a lles y plant.

**Yr amgylchedd: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn ddiogel ac yn rhoi blaenoriaeth i asesu risg yn yr ardaloedd tu mewn a thu allan ac i weithgareddau penodol. Mae hyn yn cael effaith bositif ar ddatblygiad plant drwy eu galluogi i gymryd risgiau ac ymgymryd â phrofiadau newydd. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod systemau derbyn ymwelwyr ac ar gyfer derbyn a chasglu plant ar ddiwedd sesiynau yn drwyadl. Maent yn ymarfer driliau tân yn fisol ac yn amrywio eu hamseru. O ganlyniad, mae bron bob un o'r plant yn cael cyfle i ymgyfarwyddo â'r trefniadau i'w dilyn mewn argyfwng. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn lân a threfnus ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda iawn. Mae arweinwyr yn cydweithio â pherchnogion yr adeilad i gwblhau'r holl waith cynnal a chadw ar yr adeilad ac i roi gwasanaeth i gyfleustodau a chyfarpar.

Mae ansawdd yr amgylchedd o safon uwchraddol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr ac ymestynnol iawn i blant. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn groesawgar a diddorol ac yn dathlu creadigrwydd y plant a'u cefndiroedd amrywiol. Mae hyn yn creu ymdeimlad uwchraddol o hunan-werth a pherthyn ymysg y plant. Mae ymarferwyr yn gweithredu system effeithiol dros ben er mwyn gosod yr ystafell allan ar gyfer y plant yn ddyddiol. Mae gofyn i'r lleoliad glirio'r adnoddau ar ddiwedd bob dydd gan eu bod yn rhannu'r adeilad â'r gymuned. Mae

ymarferwyr yn manteisio ar yr her hon drwy gymryd cyfleoedd dyddiol i amrywio'r ardaloedd ac i gynnwys syniadau cyson y plant am y gwahanol ardaloedd yr hoffent eu gweld. O ganlyniad, mae’r plant yn cael cyfleoedd helaeth i lywio eu hamgylchedd ac mae llais y plant yn gryf. Mae’r dodrefn, cyfarpar, teganau ac adnoddau o ansawdd a safon uchel, ac yn cael eu cynnal a’u cadw’n dda.

Mae ymarferwyr yn darparu ardaloedd chwarae a dysgu ysgogol, sy’n cynnwys ardaloedd tawel a chwarae rôl, cyfleoedd i blant ymchwilio ac ymholi a gweithgareddau sy'n effeithio’n gadarn iawn ar eu dychymyg. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod dewis helaeth o adnoddau ac offer diddorol a chyffrous ar gael i’r plant. Mae’r ardal allanol yn cynnig cyfleoedd rhagorol i’r plant ddatblygu eu dychymyg a’u medrau creadigol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd effeithiol o’r ardal fawr naturiol o'u cwmpas er mwyn cynnig ystod o brofiadau eang i’r plant megis coginio amrywiol fwydydd tu allan, amser stori a chanu yn y goedwig. Maent yn rhoi cyfle i blant fod ar eu pen eu hunain os ydynt yn teimlo’r angen, drwy gynnig nifer o fannau cysurus tawel. Gwneir defnydd helaeth o ddeunyddiau sydd wedi’u hailbwrpasu ac mae ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd iawn â defnyddio a symud y rhain i gefnogi eu chwarae dychmygus. Er enghraifft, defnyddio paledi pren a seddi heb goesau i greu sled Siôn Corn. O ganlyniad, mae’r plant yn cael cyfleoedd eithriadol i ddatblygu eu medrau yn annibynnol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae’r arweinydd yn llwyddo i greu ethos hynod o gartrefol a chynhwysol lle mae’r plant, ymarferwyr a rhieni yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae llais y plant wrth wraidd pob penderfyniad a wneir. Mae gan yr arweinydd weledigaeth glir iawn sy’n gael ei rhannu â’r ymarferwyr yn effeithiol er mwyn sicrhau disgwyliadau uchel a chyson o’r ymarferwyr a’r plant. Ceir ymdeimlad o ethos cydweithio cadarnhaol lle mae’r staff yn cefnogi ei gilydd yn dda. Diweddarwyd y datganiad o ddiben yn ystod yr arolygiad er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cwbl glir o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y dogfennau statudol mwyaf cyfredol yn cael eu rhannu â’r holl randdeiliaid.

Mae ymarferwyr yn meddu ar gymwysterau a phrofiad perthnasol i ofalu am y plant. Maent yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu’n broffesiynol. Mae hon yn agwedd sy’n cael ei hyrwyddo a’i rheoli’n effeithiol gan yr arweinydd. Mae cryfderau ymarferwyr yn cael eu cydnabod ac yn cael eu defnyddio er mwyn cyfoethogi’r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae ymarferydd sydd wedi cael hyfforddiant mewn defnyddio’r ardal goedwig yn cefnogi medrau a dealltwriaeth y plant o fyd natur.

Mae gan y lleoliad drefniadau hunanwerthuso cynhwysfawr sy’n sicrhau bod gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a’r meysydd i’w gwella. Mae arweinwyr hefyd yn defnyddio adroddiadau gan asiantaethau eraill yn bwrpasol er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant. O ganlyniad, mae arweinwyr yn sicrhau cynnydd cryf yn erbyn blaenoriaethau gwella pwrpasol, sy’n cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a datblygiad y plant.

Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn rheoli adnoddau yn eithriadol o dda. Maent yn dilyn prosesau recriwtio diogel, cadarn ac amserol. Mae gan ymarferwyr

ddisgrifiadau swydd a chymwysterau perthnasol i weithio gyda phlant ifanc. Drwy drafodaethau dyddiol, mae'r ymarferwyr yn ymwybodol o'u rolau o ddydd i ddydd, er enghraifft wrth osod a phacio ar ddechrau a diwedd bob sesiwn.

Mae gan y lleoliad berthynas effeithiol â'r awdurdod lleol a mudiadau cefnogi. Mae'r arweinwyr yn manteisio ar gyfleoedd datblygiad proffesiynol arloesol gyda chefnogaeth yr awdurdod lleol. Enghraifft dda o hyn yw arsylwi arfer effeithiol dros gyfnod o amser mewn lleoliad arall. Mae'r lleoliad hefyd yn darparu cefnogaeth werthfawr i'r gymuned ac i leoliadau eraill, er enghraifft trwy gefnogi lleoliadau eraill drwy rhannu arfer effeithiol o ran gosod a phacio dyddiol mewn adeiladau cyhoeddus, a chynllunio'n bwrpasol ar gyfer yr amgylchedd dysgu a chwarae. Yn ogystal, mae cyswllt cadarnhaol yn bodoli rhwng y lleoliad a'r ysgol leol. Maent yn trosglwyddo plant i'r ysgol yn ddyddiol ac, o ganlyniad, mae'r plant yn pontio'n llwyddiannus i addysg gynradd.

Mae ymarferwyr yn siarad gyda'r rhieni a gofalwyr wrth y drws yn rheolaidd er mwyn rhannu gwybodaeth am gynnydd eu plant ac i rannu unrhyw pryderon sydd ganddynt. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae arweinwyr yn gwahodd teuluoedd i aros a chwarae gyda'u plant wrth iddynt ddechrau yn y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn cydweithio'n ddiwyd i gefnogi'r cylch trwy drefnu digwyddiadau codi arian yn rheolaidd.

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella’n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio’r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio’n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 09/02/2024

| Crynodeb o'r achos o ddiffyg cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb ei Chyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfiaeth â'r rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a / neu risg i'w llesiant eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau

angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella / Meysydd I'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad | Dd/G |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall p'un a yw ein hadroddiadau yn darparu gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, cliciwch ar y ddolen ganlynol i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiad arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol am wasanaeth, ewch i'n Tudalen arolygon adborth

**Dyddiad Cyhoeddi** 09 Chwefror 2024